Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

WHIASU
Wales Health Impact Assessment Support Unit
Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru

# Templed cwmpasu - pennu'r trefniadau llywodraethu, y broses, yr amcanion a'r ffocws ar gyfer yr HIA

**Mae cwmpasu yn pennu'r broses o reoli prosiect, llywodraethu, proses, amcanion, ffocws a graddfa'r asesiad sydd i'w gynnal. Bydd yn nodi ystod o elfennau gan gynnwys cylch gorchwyl, rolau a chyfrifoldebau, cynnwys rhanddeiliaid, y raddfa/ math o asesiad a'r dystiolaeth sydd ei hangen.**

Bydd yn llywio'r cynllun gwaith ar gyfer yr HIA ac adran fethodoleg yr adroddiad terfynol. Mae hefyd yn cyfrannu at gyflawni gwerthoedd ac egwyddorion allweddol sy'n tanategu gweithredu'r HIA gan gynnwys tryloywder, cyfranogiad a chadernid.

Nid yw HIA yn broses linellol ac efallai y gwelwch yn ystod camau cychwynnol yr HIA fod y camau sgrinio a chwmpasu yn ymgyfnewidiol a bod y ddau yn gallu llywio a chefnogi'r llall. Nid oes angen i offeryn neu sesiwn sgrinio fod wedi'i gwblhau'n flaenorol. Fodd bynnag, mae offeryn sgrinio yn ddefnyddiol ac yn fuddiol ar gyfer helpu i bennu ffocws yr HIA a'r sefyllfa bresennol o ran tystiolaeth o effeithiau. Yn ddelfrydol, ni ddylid cwblhau'r cwmpasu ar ei ben ei hun.

Wrth gwblhau'r cwmpasu cyfeiriwch at y nodiadau cyfarwyddyd ar ddiwedd y templed rhestr gwmpasu hwn.

© 2020 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ cyn belled â'i fod yn cael ei wneud yn gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Cydnabyddiaeth i'w nodi i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
Mae hawlfraint yn y drefn deipograffyddol, y dyluniad a'r gosodiad yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Teitl a Throsolwg

Teitl y polisi, rhaglen, prosiect i'w werthuso:

Cefndir neu drosolwg o'r polisi, rhaglen, prosiect (croesgyfeiriwch os yw hyn wedi ymddangos mewn dogfennau blaenorol sy'n gysylltiedig â'r HIA, h.y. sgrinio)

## Rheoli Prosiect a Llywodraethu

Bydd y cwestiynau isod yn llywio rhai o'r ystyriaethau cwmpasu eraill. Fodd bynnag, efallai y bydd angen mireinio eich casgliadau cychwynnol ar ôl i adrannau eraill ar y templed hwn gael eu hystyried a'u cwblhau.

1. Beth yw'r amserlenni? (A pha bryd y mae angen gwneud penderfyniadau hollbwysig?)

2. A ddylech sefydlu Grŵp Llywio a phwy ddylai fod yn gysylltiedig â hyn?

3. A ddylai'r asesiad fod yn ymarfer mewnol neu a ddylid comisiynu rhywun i wneud y gwaith arfarnu?

4. Pa adnoddau ariannol a dynol sydd eu hangen/sydd ar gael?

5. Rolau a chyfrifoldebau'r rhai dan sylw?

## Proses

Mae angen ystyried/cynllunio pob elfen o'r broses HIA (sgrinio, asesu, adrodd, sicrhau ansawdd, monitro, myfyrio gan gynnwys unrhyw werthusiad). Gallai'r adran hon hefyd roi cipolwg ar y cyfiawnhad dros pam mae rhai pethau wedi cael eu gwneud neu heb gael eu gwneud. Mae hyn yn bwysig wrth adrodd ar yr HIA.

1. Pa elfennau o'r broses HIA sy'n cael eu hystyried (gall hyn helpu i bennu'r manylion yn rhai o'r cwestiynau cwmpasu allweddol)

2. Pa fath o asesiad sy'n angenrheidiol a/neu'n bosibl yn yr amser sydd ar gael – bwrdd gwaith, cyfranogol cyflym neu gynhwysfawr?

3. Pa offer/fframweithiau asesu HIA fydd yn cael eu defnyddio?

4. Pa fath o dystiolaeth a fydd yn rhoi'r dull gorau o nodi effaith bosibl ar y penderfynyddion o ran cwmpas ac ar ba grwpiau poblogaeth? Pa ddulliau fydd yn cael eu defnyddio i gasglu'r dystiolaeth?

5. Pwy yw'r rhanddeiliaid a pha ddulliau a ddefnyddir i gasglu eu gwybodaeth, eu mewnwelediad a'u profiad (mae cynnal dadansoddiad o randdeiliaid yn ddefnyddiol i sicrhau bod yr holl randdeiliaid perthnasol yn cael eu cynnwys a'u gwahodd i gyfrannu eu mewnwelediad)

6. Adrodd – a oes trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd (SA) ar waith? Pwy sy'n fwyaf priodol ar gyfer y SA (mewnol neu allanol)?

7. A oes trefniadau ar waith i adolygu'r broses HIA, myfyrio arni a monitro ei dylanwad a'i chanlyniadau? (Os oes mae angen cynllun amlinellol)

## Amcanion a Ffocws

Mae hyn yn elfen bwysig o'r cwmpasu.  Ystyriwch, beth yw'r cwestiwn y mae angen ei ateb drwy'r asesiad.  Mae'r ffocws a'r amcanion yn pennu ac yn llywio sawl agwedd ar yr HIA. Noder fodd bynnag, efallai na fydd yn bosibl i chi ateb hyn yn llawn yn y lle cyntaf. Efallai y bydd angen trafodaeth bellach gyda'r Grŵp Llywio neu wybodaeth a ddarperir drwy sgrinio a/neu elfennau eraill o'r rhestr wirio/proses gwmpasu.

1. Beth yw'r amcanion a'r rhesymeg dros gynnal HIA? (er enghraifft; i ddeall neu ddangos tystiolaeth o effeithiau ar iechyd; llywio neu ddylanwadu ar benderfyniad; gwella'r effaith ar iechyd a llesiant, datblygu cynllun gwerthuso a monitro, neu bob un o'r uchod/arall?).

2. Pa elfennau o'r polisi/prosiect/cynllun y dylai'r arfarniad ganolbwyntio arnynt? (Dylai'r offeryn sgrinio bennu hyn – efallai y gallwch wneud  rhai sylwadau rhagarweiniol.)

3. Ffiniau daearyddol y prosiect? (A oes angen i chi ystyried yr effaith ar bobl mewn ardaloedd neu gymunedau eraill/datblygiadau/prosiectau ychwanegol a allai effeithio ar yr un dan ystyriaeth yma/effaith gronnol?)

# Nodiadau Canllaw

## Rheoli Prosiect a Llywodraethu

**Amserlenni** - Mae'n hanfodol sefydlu amserlenni gwneud penderfyniadau'r cynnig i sicrhau y gall yr HIA gael cyfle i ddylanwadu ar y penderfyniad terfynol.

**Grŵp Llywio** - Gall Grŵp Llywio ddarparu dull effeithiol o ddosbarthu tasgau. Bydd y maint yn dibynnu ar hyd a chymhlethdod y prosiect. Gallai mwy na 12 o bobl fod yn anhylaw. Dylech sicrhau bod gennych gynrychiolwyr o'r rhanddeiliaid allweddol dan sylw (gweler isod). Mae hyn yn helpu i hyrwyddo cyfranogiad ehangach yn y broses, a pherchnogaeth ohoni. Dylech hefyd geisio cael cymysgedd o sgiliau. Yn dibynnu ar fath a chymhlethdod y cynnig, gall y sgiliau hyn gynnwys ymwneud gan y gymuned neu ei datblygu, ymchwil, rheoli prosiectau a dadansoddi polisïau.

Efallai y byddwch hefyd yn dymuno cael pobl sydd â gwybodaeth benodol. Mae hyn yn debygol o gynnwys iechyd y cyhoedd, ond gall hefyd gynnwys gwybodaeth arbenigol yn y gwyddorau cymdeithasol, epidemioleg, iechyd yr amgylchedd neu economeg iechyd. Dylech gofio hefyd fod gan gynrychiolwyr cymunedol ddealltwriaeth benodol o sut y bydd cynigion yn effeithio ar bobl leol.

Bydd pryd y byddwch yn penderfynu sefydlu grŵp llywio yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Dylech benderfynu ar grŵp llywio rhagarweiniol ar ddiwedd y broses sgrinio. Mae hyn yn golygu y bydd gennych grŵp eang o bobl i gymryd rhan yn y broses gwmpasu. Un o dasgau cyntaf y grŵp llywio yw cytuno pa mor aml y dylai'r grŵp gyfarfod a chytuno ar ddyddiadau.

**Mewnol/comisiynwyd/cymorth ychwanegol** - os yw'r HIA i ddatblygu fel agwedd arferol ar wneud penderfyniadau yna ni ddylai fynnu adnoddau ychwanegol a gellir ei feithrin mewn ffordd effeithiol ac effeithlon o ran amser drwy gydweithio. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai HIAau yn gofyn am asesiad mwy trylwyr neu'n gofyn am gydran adolygu llenyddiaeth fwy helaeth neu fod angen i chi gasglu rhywfaint o ddata lleol newydd. Lle bo angen hyn efallai y byddwch am benodi rhywun i ymgymryd â rhai o'r tasgau dan sylw. Ond bydd hyn yn golygu cost. Mae penodi rhywun y tu allan i'r sefydliad yn un opsiwn.

Dylech hefyd ystyried opsiynau eraill megis secondiadau, lle mae rhywun o fewn y sefydliad yn cael cyfle i feithrin sgiliau sy'n werthfawr i'r sefydliad ac i'w datblygiad gyrfaol personol. Yn ogystal, efallai bod gennych bobl sy'n meddu ar sgiliau i hwyluso digwyddiadau HIA, a dylech wneud defnydd ohonynt lle bynnag y bo modd. Bydd yr amser fydd gennych yn llunio'r penderfyniadau a wnewch chi am y math o HIA rydych chi'n gallu ei wneud.

**Adnoddau** - sefydlwch pa adnoddau sydd ar gael h.y. arian ychwanegol a / neu amser pobl. Bydd angen i chi ddatblygu dull sy'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i chi. Cofiwch fod HIA yn offeryn hyblyg a chymesur.

**Rolau a chyfrifoldebau** - bydd ystod o dasgau dan sylw, y dylid cytuno arnynt ar y cam hwn. Gall y rhain gynnwys:

- Arweinydd HIA
- Casglu a dehongli tystiolaeth
- Cadeirio cyfarfodydd
- Tasgau gweinyddol/logistaidd h.y. archebu lleoliadau/gwahoddiadau
- Ysgrifennu adroddiad
- Lledaenu canfyddiadau
- Monitro a gwerthuso

Bydd angen cytuno ar unrhyw swyddogaethau cyffredinol sydd gan y grŵp llywio hefyd er mwyn i'r aelodau fod yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir ganddynt. Er enghraifft, gall aelodau'r grŵp llywio eu hunain fod yn gyfrifol am ddarparu mynediad i fathau penodol o wybodaeth neu dystiolaeth, neu gefnogi mynediad at grwpiau penodol o bobl fel rhan o gasglu tystiolaeth dechnegol neu ansoddol. Disgwylir iddynt hefyd adolygu unrhyw ddrafftiau o'r adroddiad terfynol neu gyfres o argymhellion.

## Proses

Mae'n bwysig nodi a yw'r **cwmpasu** yn pennu cyfeiriad yr holl HIA neu elfennau o'r broses. Mae'n bwysig bod yn agored ac yn dryloyw a dangos yn llawn yr hyn a gynlluniwyd/ ymgymerwyd/ystyriwyd, yr hyn na chafodd felly, a pham. Mae pum cam i HIA:

- Sgrinio
- Cwmpasu
- Asesu
- Adroddiad yn cynnwys Sicrhau Ansawdd
- Adolygu a Myfyrio gan gynnwys unrhyw waith Monitro a Gwerthuso

Nid yw HIA yn broses linol ond yn iteraidd h.y. pe bai gwaith cwmpasu'n cael ei wneud cyn sgrinio, efallai yr hoffech ddiweddaru'r cwmpasu yn dilyn unrhyw ganfyddiadau o sgrinio ac i'r gwrthwyneb. Rhowch eglurder a diweddariad os oes angen.

Mae pa mor **fanwl** yw eich asesiad yn dibynnu ar yr amserlenni, yr adnoddau sydd ar gael a chymhlethdod y prosiect. Gall asesiadau cyflym gynnwys un cyfarfod â rhanddeiliaid ac adroddiad. Gall asesiadau mwy cynhwysfawr gymryd misoedd a chynnwys adolygiadau llenyddiaeth systematig, casglu data newydd a dadansoddi arbenigol.


Os yw HIAau i ddod yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau parhaus, yna mae'n debygol y bydd mwy o asesiadau cyflym yn cael eu ffafrio. Yng Nghymru, mae rhai o'r farn mai dull tri chyfarfod yw'r un y mae gan y rhan fwyaf o sefydliadau y gallu i'w ddarparu.

**Rhanddeiliaid** yw'r rhai yr effeithir arnynt gan y cynnig neu sydd â buddiant ynddo. Mae cynnwys rhanddeiliaid a'r gymuned yn bwysig er mwyn eu galluogi i gyfrannu eu gwybodaeth a'u mewnwelediad fel rhan o'r arfarniad h.y. tystiolaeth a gafwyd o'u profiad neu eu gwybodaeth. Efallai y byddai'n ddefnyddiol cynnal dadansoddiad o randdeiliaid.

Ni ddylid drysu rhanddeiliaid ag aelodau posibl y grŵp llywio a fyddai'n goruchwylio neu'n ymgymryd â thasgau penodol o fewn yr HIA. Gallant fod yn gynrychiolwyr o'r un sefydliad ond byddai'r disgwyliadau a'r ymwneud yn amrywio rhwng rhanddeiliad ac aelod o'r grŵp llywio.

## Dulliau i asesu effeithiau a chasglu tystiolaeth

Mae HIA yn defnyddio tri llinyn tystiolaeth:




Gan ddibynnu ar natur y cynnig a'r adnoddau a'r amser sydd ar gael, dylech feddu ar ddealltwriaeth sylfaenol o'r dulliau y dymunwch eu defnyddio i asesu'r effeithiau posibl. Caiff yr asesiad ei lywio gan ddata poblogaeth lleol ac adolygiad o lenyddiaeth/tystiolaeth (lleol, cenedlaethol a rhyngwladol lle y bo'n briodol). Ategir hyn gan dystiolaeth ansoddol gan randdeiliaid. Gellir cael hyn drwy, er enghraifft, cyfarfodydd rhanddeiliaid, a chyfweliadau gydag arbenigwyr allweddol, grwpiau ffocws neu arolygon.

Wrth sicrhau ansawdd / adolygu HIA mae angen ystyried ehangder y dystiolaeth a'i chadernid. Mae hyn yn cynnwys pa mor briodol yw'r dulliau a ddefnyddir i gasglu tystiolaeth, sef y ffordd y cesglir tystiolaeth gan randdeiliaid. Dylai cwmpasu amlygu hyn.

**Sicrhau Ansawdd (SA)** - yn dibynnu ar gyd-destun a natur yr HIA gellir cynnal SA naill ai'n fewnol gan y sefydliad arweiniol neu'n allanol gan randdeiliaid annibynnol. Gall y cwmpasu roi manylion am natur a phroses SA os yw'n briodol. Mae fframwaith 'Adolygu Sicrwydd Ansawdd Cymru ar gyfer HIA' (WHIASU, 2017) ar gael yn **https://whiasu.publichealthnetwork.cymru/cy/resources/**

**Adolygu, myfyrio a monitro** - dylid adolygu a/neu fonitro HIA fel mater o drefn. Gall hyn wella'r hyn a ddysgir o'r broses er mwyn llywio ymarfer yn y dyfodol (gwerthuso prosesau); a/neu llywio comisiynwyr neu randdeiliaid am ddylanwad yr HIA (gwerthuso effaith); neu fonitro sut y mae'r HIA wedi cael effaith (os o gwbl) ar ganlyniadau iechyd a llesiant fel y rhagwelwyd mewn perthynas â'r penderfynyddion neu'r poblogaethau a nodwyd yn yr HIA fel y rhai yr effeithir arnynt yn benodol (gwerthuso'r canlyniadau).

## Ffocws

**Ffocws yr arfarniad** - er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o unrhyw adnoddau mae angen i chi ganolbwyntio ar yr effeithiau hynny sy'n fwyaf tebygol o ddigwydd a chael yr effaith fwyaf posibl ar iechyd ac anghydraddoldebau. Gan ddefnyddio'r matrics sgrinio a'r daflen adrodd gallwch nodi pa feysydd effaith y dylai'r arfarniad ganolbwyntio arnynt. A ddylid rhoi blaenoriaeth i rai penderfynyddion, a ddylid diystyru eraill o ran y cwmpas? Neu a oes angen lens eang?

Wrth i'r cam arfarnu fynd rhagddo, mae'n ddefnyddiol myfyrio ar y broses gwmpasu er mwyn sicrhau bod y ffocws wedi'i gynnal, neu mewn ymateb i ganfyddiadau o fewn yr arfarniad, a oes angen diwygio'r ffocws? Mae'n dderbyniol gwneud newidiadau ond mae angen cofnodi a chyfiawnhau'r rhain o fewn yr adroddiad.

**Ffiniau daearyddol** - Mae'n bwysig cytuno ar ffiniau daearyddol yr HIA. Gall fod effeithiau sy'n effeithio ar boblogaethau y tu hwnt i'r rhai sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cynnig felly mae'n bwysig gwneud penderfyniad ynghylch ble rydych yn pennu ffiniau a'r rhesymau dros hyn. Ystyriwch yr effaith gronnol bosibl bob amser ac os yw'n berthnasol yn yr asesiad penodol.

WHIASU
Diwygiwyd Ionawr 2020